

Partneriaeth Talysarn & Nantlle



Bwletin Ward Talysarn

Gorffennaf - Medi 2007

BWRLWM BYSEDD

Yn ddiweddar rydym ni plant Ysgol Talysarn wedi bod yn ceisio creu busnes o werthu cardiau Nadolig a bagiau creff a chreff. Rydym wedi bod yn gweithio hefo Bethan Jones o gwmni Menter a Busnes yn ceisio dylunio'r cardiau a'r bagiau, cyllido y fenter, ymchwilio i'r farchnad a marchnata'r cynnyrch. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio hefo Nick o Bartneriaeth Talysarn a Nantlle ac mae o wedi ceisio cael arian i ni dalu am fynd i ffeiriau i gael gwerthu ein cynhyrchion e.e. yn Glynllifon a'r Faenol. Rydym wedi mwynhau gwneud y bagiau a'r cardiau a byddem yn eu gwerthu o fis Hydref ymlaen yn yr ysgol ac mewn siopau lleol. Dewch i'w prynu ar un waith er mwyn casglu arian i Ysgol Talysarn.



ARCHIF GYMUNEDOL CYMRU – LLYS LLYWELYN



Grŵp o Nantlle sydd yn cyfarfod yng Nghanolfan Llys Llywelyn i sganio hen luniau. O'r chwith i'r dde: Lis Roberts, Robin Williams, Tomos Alun Williams, Eryl Thomas, Eirlys Williams, Gwilym Roberts, Glyn Thomas

Yn ddiweddar fe lansiodd cynllun arbennig Archif Gymunedol Cymru gan gymdeithas Hanes a Hen Luniau Nantlle a Drws y Coed mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cafwyd cyflwyniad arbennig gan Dr Gwynfor Pierce Jones yn ei araith unigryw, yn dangos hen luniau o Chwarel Penyrsedd o'i gasgliad personol.

Braf oedd clywed y gynulleidfa yn ymuno o dro i dro wrth adnabod rhai o'r hen gymeriadau, adeiladau a hen offer oedd yn cael eu dangos. Mae'n bwysig ein bod yn cofio a chadw hanes o'r gorffennol. Os oes gan unrhyw un hen luniau y gall y gymdeithas ei benthyl i wneud copi yna cysylltwch â Eryl neu Glyn Thomas, Bryn Deulyn, Nantlle.

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaethtalysarnant@btopenworld.com



communities first cymunedau yn gyntaf



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

MARCHNAD LEOL

Mae'r farchnad leol yn tyfu o nerth i nerth. Cychwynodd y farchnad gan grŵp Llysiâu Lleu er mwyn gwerthu eu cynnyrch sy'n cael eu tyfu ar dir Trigonos yn Nantlle. Bellach mae'r farchnad yn cynnwys 6 stonddin yn gwerthu cynnyrch lleol ffres, llysiâu, cacennau, bara, a wyau. Galwch i'r farchnad unrhyw ddydd Gwener rhwng 3.30 a 5.30yh. Bydd paned a sgwrs ar gael yng nghaffi'r Injan Fach y Ganolfan. Unrhyw un sydd â diddordeb gwerthu eu cynnyrch yn y farchnad i gyrraedd digon buan er mwyn gosod eu stonddin a bod yn barod i werthu am 3.30yh.

PLANNING FOR REAL®

Mae Rhaglen Planning For Real yn brysur dirwyn i ben o safbwynt yr ymgynghoriad a'r adroddiad terfynol. Ond megis dechrau bydd y gwaith o roi cynllun gweithredu at ei gilydd a datblygu rhai awgrymiadau sydd yn cael blaenoriaeth y gymuned.

Mae Partneriaeth Talysarn a Nantlle yn awyddus cydweithio gyda grwpiau ac unigolion i wireddu y freuddwyd sy'n ymddangos trwy Planning For Real. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol agos i drafod a cheisio datblygu prosiectau penodol. Mae'n hanfodol eich bod yn cymeryd rhan.

BLODEUWEDD

Mae Blodeuwedd wedi cael rhai misoedd reit brysur dros yr haf a dechrau'r hydref. Un prosiect arbennig maent wedi bod yn gweithio arno yw plannu llwyni a choed bychan ar derfyn tai Gloddfa Glai, Talysarn. Cafodd dros 150 o lwyni a choed bychan eu plannu ac mae'r grŵp ar hyn o bryd yn gobeithio cael dwirnod gyda gwirfoddolwyr a phobl ifanc o Ysgol Talysarn i blannu dros 500 o fylbiau blodeuo gwanwyn, i mewn, ac o gwmpas, y terfyn. Hoffai Blodeuwedd ddiolch i'r rhai wnaeth helpu, yn enwedig y pobl ifanc, Carys Pritchard, Sue Jones, Ysgol Talysarn a Humphrey Jones o Adran Tai Cyngor Gwynedd a gefnogodd y cynllun yma gyda grant o £150.

Mewn noson gwobrwyo cystadleuaeth gerddi gorau a gynhaliwyd gan Gyngor Cymuned Llanllyfni fe fu i Blodeuwedd dderbyn gwobr arbennig am eu gwaith yn y gymuned ac fe fu iddynt dderbyn tystysgrif a £25 i'w wario gan Ganolfan Garddio Fron Goch. Am fwy o wybodaeth am sut i helpu ac am waith Blodeuwedd yna cysylltwch â Tom Coleman ar 01286 882354 neu tom@cymru1.net

GRŴP AMGYLCHEDD TALYSARN & NANTLLE

Mae Grŵp Amgylchedd Talysarn a Nantlle yn grŵp gwirfoddol ac annibynnol a gafodd ei sefydlu er mwyn amddiffyn a hyrwyddo amgylchedd naturiol a diwyllianol Dyffryn Nantlle. Mae'r aelodau yn bobl sydd yn byw yn lleol ac sydd yn poeni am yr amgylchedd. Os ydych angen mwy o wybodaeth gallwch gysylltu â ni neu ymunwch â ni yn un o'n cyfarfodydd. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn fisol.

Ailsa Newcombe 01286 881946 ailsanewcombe@hotmail.com

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

PLAS BALADEULYN, LLWYBR CERDDED A LLYN NANTLLE UCHAF

Hoffai Trigonos roi stop i'r siarad sydd yn mynd ymlaen yn dweud eu bod yn gwahardd pobl rhag mynd lawr at y llyn trwy'r llwybr o'r lôn. Mae hyn wastad wedi bod yn gelwydd. Mae'r llwybr bob amser ar agor ond eithrio mewn argyfwng fel traed a'r genau, coed wedi disgyn neu'n beryglus, ac un diwrnod o'r flwyddyn lle bydd rhaid arwyddocau statws ffordd ganiataol.

Ffordd ganiataol yw'r llwybr nid "right of way". Mae'n rhedeg drwy'r giat mochyn o'r lôn, i lawr drwy'r coed at y llyn. Wrth nad ydyw yn "right of way" nid oes arwydd llwybr iddo. Pan gyrhaeddom Plas Baladeulyn nid oedd y llwybr cerdded ar hyd y llyn ddim mwy na tua 100 llath tuag at ffens o lechi a gwifrau a oedd yn rhwystro unrhyw un fynd ymhellach. Tua 5 mlynedd yn ôl penderfynwyd ymestyn y ffordd ganiataol ymhellach ar hyd y llyn gan wneud agoriad a rhoi pont ar draws Afon y Garth. Fe greodd hyn lwybr yn rhedeg tua 400 llath ar hyd lan y llyn.

Yn anffodus nid yw'r llwybr yma wedi ei gysylltu ag unrhyw un arall felly bydd rhaid i gerddwyr stopio wrth derfyn tir Plas Baladeulyn a mynd yn ôl yr un ffordd. Nid yw'n bosib i bobl ddod i fyny drwy gaeau'r Plas ei hun oherwydd eu bod yng nghanol gweithgareddau busnes y ganolfan. Yr ydym yn gofyn i bobl ddefnyddio'r giat mochyn er mwyn ymweld â'r llyn a dim defnyddio mynediad i'r Plas er mwyn parchu'r ffaith bod y caeau yn dir amaethyddol gyda defaid a phorfa, ac i gadw i'r llwybr wrth lan y llyn. Fel hyn mi fydd Trigonos yn hapus i weld y cyhoedd yn mwynhau'r tirlun bendigedig yma.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mynediad at y llyn cysylltwch â swyddfa Trigonos ar 01286 882388.

PROSIECT DYFODOL DIGIDOL

Mae prosiect i godi hyder pobl mewn technoleg gwybodaeth wedi cael ei ddatblygu yng Ngwynedd. Amcan "Dyfodol Digidol / A Digital Future" yw codi ymwybyddiaeth o dechnoleg newydd a buddiannau cynhwysiad digidol. Gyda saith mlynedd o brofiad mewn darparu prosiectau cymunedol, yn cynnwys TGCh, Deudraeth Cyf yw darparwr y prosiect trwy Wynedd.

Mae sesiynau profi'r prosiect Dyfodol Digidol sydd wedi eu cynnal yng Nghanolfan Llys Llywelyn Nantlle yn profi'n ddefnyddiol a phoblogaidd iawn gyda'r rhai sy'n dymuno deall a defnyddio cyfrifiadur. Mae'r cynnig i dderbyn hyfforddiant, AM DDIM, yn agored i unrhyw un sydd yn byw o fewn ardaloedd Talysarn a Nantlle. Fe fydd y sesiynau yn cael eu cynnal yn yr ystafell gyfrifiaduron newydd o fewn Canolfan Cymdeithasol Talysarn ac yn parhau i'w rhedeg yng Nghanolfan Llys Llywelyn Nantlle.

Os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth neu os oes gennych ddiddordeb mewn gwella eich sgiliau ar y cyfrifiaduron yna cysylltwch â Dawn Thomas, Gweithiwr Datblygu ar 01766 771795 neu Dafydd Williams ar 881103. Cefnogir y prosiect gan Cymunedau @ Ei Gilydd, menter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cael ei weinyddu gan Ganolfan Gydweithredol Cymru, i gynorthwyo pobl yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i elwa o dechnoleg newydd. Ariennir y rhaglen hon ar y cyd gan raglenni Amcan 1 a 2 y Gymuned Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

CLWB YR IARD

Rhaid cymeradwyo Clwb yr Iard am yr ymrwymiad mae criw bach wedi ei wneud i ddatblygu clwb plant yn yr ardal. Gyda 50 o aelodau bellach ar eu llyfrau mae trefnu gweithgareddau a chael bws i gario pawb yn dipyn o broblem. Er hyn, trefnwyd gweithgareddau pob wythnos i'r plant dros gyfnod gwyliau'r haf, yn driip i Barc Camelot, diwrnod ym Mhlas Silyn, diwrnod Hwyl Llys Llywelyn, diwrnod yn sgetio rhew Canolfan Deeside, Bowlïo Deg yn Glasfryn, diwrnod ym Mhlas y Brenin yn dringo a chanwïo, sesiwn yn addurno cacenau, sesiwn yn gwneud brithwaith (mosaic).

Yn ôl y clwb 'Mae Gan Nantlle Dalent' yw y peth nesaf ar y gweill. Edrychwn ymlaen yn arw at y canlyniadau.

DOROTHEA

Unwaith eto mae Dorothea ar flaen tafod pawb. Gyda perchnogion newydd wedi cymeryd y safle drosodd mae camau ar y gweill i ddatblygu'r hen chwarel. Yn anffodus gohiriwyd cyfarfod cyhoeddus nos Fercher 26 Medi oherwydd bod cynrychiolydd cwmni Dorothea wedi ei alw i'r ysbyty yn ystod yr wythnos. Mae Partneriaeth Talysarn a Nantlle yn awyddus cydweithio gyda cwmni Dorothea i drefnu a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus er mwyn i'r gymuned gael lleisio barn ar unrhyw ddatblygiad a bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos i drafod y datblygiad. Dewch i roi eich syniadau.

TAI FFORDDIADWY

Newydd da bod Tai Fforddiadwy ar y gorwel. Mae Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Dyffryn Nantlle wedi cymeryd cam pendant ymlaen i adeiladu tai fforddiadwy yn yr ardal. Gyda chefnogaeth Cist Gwynedd (Cyngor Gwynedd) a Tudor Trust mae'r ymddiriedolaeth wedi cael arian i gyflogi swyddog datblygu am gyfnod o flwyddyn a hanner er mwyn datblygu'r prosiect.

Un o safleoedd mae'r ymddiriedolaeth yn awyddus adeiladu tai arno yw Gloddfa Glai felly mae'n hanfodol bod y gymuned leol yn ymwybodol a chefnogol o unrhyw ddatblygiad ar y safle yma.

**AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn**

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaethtalysarnanant@btopenworld.com